# Cyngor Cymuned Mawrth 17 2016 yn Festri Capel Tabor

Presennol : Islwyn Jones, Fred Jones, Margaret Lewis, Morgan Morgans, Huw Griffith, Lyn Davies.

Ymddiheuriad : David Jones

Darllenwyd cofnodion cyfarfod Chwefror 18 ac arwyddwyd eu bod yn gywir.

Materion yn codi

Cyfrifon diwedd blwyddyn. Cafwyd help oddi wrth yr archwilydd mewnol i gwblhau'r gofynion angenrheidiol ar-lein.

Cyflwr y draeniau rhwng Maes yr Haf a Chapel Bethel. Adroddwyd nad oedd dim wedi digwydd hyd yma.

Arian yn y banc - £222.24. Cyfrif rhif 2 - £4676.48.

Gohebiaeth

1 Mewn ateb i gais Un llais Cymru enwyd Islwyn Jones fel cynrychiolydd y Cyngor ar eu Pwyllgor Ardal.

2 Rhoddwyd rhybudd cau ffordd dros dro ger Llanrhystud mewn man cyhoeddus yn y pentre.

3 Apêl am arian wrth Gofal mewn Galar. Pasiwyd i'w gadw i'w ystyried y flwyddyn nesaf

4 Ymgynghoriad ar fwriad y Cyngor Sir i gyflwyno tâl o £390 y flwyddyn ar gyfer pob myfyriwr ôl-16, a phob disgybl sy'n elwa o'r ddarpariaeth seddi gwag. Trafodwyd yr opsiwn a gynigir gan y Cyngor Sir a gofyn i'r clerc ymateb i'r perwyl nad oedd y Cyngor yn cytuno gyda chodi tâl cludiant ar ddisgyblion ôl-16 nac ychwaith ar ddisgyblion sy'n elwa o'r ddarpariaeth seddi gwag.

5 Penderfynwyd nad oedd gan y Cyngor ddiddordeb mewn archebu medalau i gofio pen-blwydd y Frenhines yn 90.

6 Trefniadau Casglu Gwastraff dros gyfnod y Pasg. Y daflen i gael ei harddangos yn ffenest y siop.

7 Egwyddorion Gweinyddiaeth Dda a Rheoli Cofnodion yn Dda. Talwyd sylw i'r ffaith fod hwn yn rhifyn newydd gydag ychwanegiadau a bod y ddogfen i'w gweld ar eu gwefan www.ombudsman-wales.org.uk

8 Fframwaith Moesegol Llywodraeth Leol. Darllenwyd crynodeb o brif bwyntiau'r ddogfen a phasiwyd i fabwysiadu'r Côd Ymddygiad diwygiedig.

9 Derbyniwyd y cylchgronau canlynol -Spring Newsletter Noah's Ark, Clerks and Councils Direct, Chwarae dros Gymru.

10 Zurich Municipal am i ni ystyried gofyn iddyn nhw am bris yswiriant y tro nesaf. Cytunwyd i'w gadw mewn cof..

11 Taith dros Fywyd yn gofyn i'r ardal drefnu taith gerdded yn lleol i godi arian ar gyfer Sefydliad Aren Cymru. Awgrymwyd rhoi'r cais yn ffenest y siop at sylw eraill yn yr ardal.

Unrhyw fater arall

Adroddwyd bod cais i newid enw un o'r ddau sy'n arwyddo sieciau'r Cyngor a chytunodd Huw Griffith i gymryd at y gwaith gyda Fred Jones.

Gofynnodd Lyn Davies am gael ei ryddhau o fod yn gynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar fwrdd llywodraethwyr yr ysgol. Er mwyn gwneud yn siwr a oes rheidrwydd fod yna gynrychiolydd o'r Cyngor, gofynnwyd i'r clerc gysylltu â'r brifathrawes.

Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd Ebrill 21ain